Cylchlythyr

Rhifyn yr Haf 2007

GISDA

CYNNWYS

Gair gan y bos	2
Adnoddau Dynol	2
Theatr (Parhad)	2
Profiad Myfyrwraig	3
Gweithio gyda'n gilydd	3
Grym wrth actio	4

Dyddiad i'ch dyddiadur

Medi 24, 2007
Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol GISDA
(lleoliad i'w drefnu)

Cyfle arall i weld perfformiad o'r Theatr Fforwm a gafodd gymaint o argraff ar y rhai a fynychodd ein Cynhadledd fis Hydref llynedd.

Cysylltwch â ni

Tŷ Rhydalun
Penrallt Uchaf
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1PR
☏ 01286 671153
gisda@gisda.co.uk

Rhifyn nesaf — Hydref

THEATR PROFIADAU

Yn ddiweddar cafodd criw o bobl ifanc o GISDA a Digartref Ynys Môn a thri aelod o staff y cyfle i fynychu gweithdy theatr fforwm o dan arweiniad Iwan Brioc. Theatr ryngweithiol sydd wedi ei selio ar broblemau a thabŵ cymdeithas yw theatr fforwm. Rhoddir cyfle i bobl gyfleu eu safbwyntiau ar broblemau cymdeithasol a thrafod materion cyfoes a phynciau llosg fel gwleidyddiaeth a chyfraith gwlad. Cydnabyddir Theatr Fforwm gan y Cenhedloedd Unedig fel dull positif o "Newid Cymdeithasol". Mae'n ddull sy'n cael ei ddefnyddio'n rheolaidd yn Lithuania, Estonia, Portiwgal a'r Eidal a nawr gallwn ymfalchïo fod Cymru'n ymgymryd â'r dull. Dull rhyngweithiol ydyw sy'n annog y gynulleidfa i chwarae rhan flaenllaw i ddarganfod ateb i'r broblem dan sylw, hynny yw os oes ateb o gwbl.

Eglurodd Iwan fod y theatr yn mynd i adlewyrchu profiadau personol y grŵp, "mae actorion proffesiynol yn gorfod ymchwilio i'w rôl, mae hynny gennych chi'n barod, felly mewn ffordd rydych chi'n hynod o brofiadol" meddai. Dyma griw o bobl ifanc oedd wedi profi anawsterau bywyd drostynt eu hunain ac felly roedd pob un ohonynt yn arbenigwyr yn y maes yn barod. Yn ogystal roedd gan aelodau staff brofiadau eang ym maes gofal a digartrefedd, felly roedd cyfuniad o brofiadau gwerthfawr ar gael yn barod i'w dadansoddi.

Y criw yn y Cynulliad Cenedlaethol

Y dasg gyntaf oedd dewis themâu addas gan gofio eu bod yn mynd â'r theatr ar daith i ysgolion Gwynedd, Coleg Meirion Dwyfor, heb anghofio wrth gwrs y Cynulliad Cenedlaethol. Roedd yn hanfodol cael darn o theatr effeithiol a fyddai'n cynhyrfu'r dyfroedd ac yn sbarduno trafodaeth. Fe gafwyd hyn ar ffurf pum golygfa fachog yn ymdrin â phroblemau person ifanc yn ceisio delio a sefyllfa dreisgar.

Ar ôl tridiau trwm o ymarfer cafodd Ysgol Botwnnog, Ysgol Syr Hugh Owen a Choleg Meirion Dwyfor Pwllheli eu difyrru gan y perfformiad. Heb amheuaeth cafwyd ymateb positif iawn a thrafodaethau tanboeth i'w canlyn. Gyda phob perfformiad gwelwyd cynnydd amlwg yn hyder y bobl ifanc .

Parhad Tud 2

GAIR GAN Y BOS

Ar drothwy newidiadau Gwleidyddol; gyda Clymblaid yn y Cynulliad a PHrif Weinidog newydd yn San Steffan, edrychwn ymlaen, gyda disgwyliadau enfawr, i weld pa adnoddau ychwanegol fydd ar gael i'r Sector.

Ar hyn o bryd mae bron i 95% o'r arian ar gyfer digartrefedd yn cael ei wario ar wasanaethau. Ychydig iawn sy'n cael ei wario ar waith ataliol ac adnoddau. Er gwaetha ymdrechion nifer yn y maes, nid oes fawr o gyfle i'r rhai ifanc a sengl gael lle eu hunain (mae cyfyngiadau rheolau budd dal tai yn ei wneud yn amhosib iddynt gael lle yn y Sector Breifat).

All neb wadu pa mor bwysig yw'r penderfyniad i sefydlu Clymblaid, a gwir obeithiwn bydd mwy o adnoddau yn ffeindio eu ffordd i'r Gogledd. Gyda gweinidog newydd yn arwain y wlad, tybed beth fydd ganddo ef a'i Gabinet i gynnig i'r rhai llai ffodus yn ein cymdeithas.

Ar nodyn mwy positif, mae Gisda wedi cychwyn trafodaethau gyda Chymdeithas Tai Gogledd Cymru a swyddogion Adrannau Tai a Chefnogi Pobl Sir Gonwy, gyda'r bwriad o gynnig gwasanaeth yn y Sir. Camau cyfforus iawn i ni.

Mwynhewch y rhifyn diweddaraf o'r cylchlythyr

NEWYDDION ADNODDAU DYNOL

Staff
Mae dau wyneb newydd yn Tŷ Rhydalun ers dechrau mis Mehefin. Cychwynnodd Manon Owen a Kimberley Edwards fel Cynorthwyydd Gweinyddol dros dro. Bydd Manon yn cynorthwyo Mair ag yn gwneud gwaith derbynfa a Kim yn cynorthwyo Carys ag yn gwneud gwaith derbynfa hefyd. Croeso cynnes i'r ddwy ohonoch a phob lwc yn eich swyddi.

Yn anffodus,oherwydd gwahanol amgylchiadau, bu'n rhaid dod a swyddi i ben yn ddiweddar. Daeth swydd Erica Jones, Swyddog Ansawdd a Pherfformiad i ben ym mis Mehefin ac ym mis Gorffennaf bydd swyddi Marie Willcox a Dylan Davies, Tiwtoriaid Llwybr Llwyddiant yn darfod oherwydd y penderfyniad i beidio parhau gyda'r dysgu allanol.

Llongyfarchiadau mawr i Eilian a Toni Jones ar enedigaeth Gwion Aeron a Morus Llŷr a ddaeth i'r byd dipyn bach yn fuan. Ar ôl amser eithaf pryderus ar y cychwyn mae'r pedwar erbyn hyn adref yn saff ym Mhen Llŷn a'r hogia'n tyfu o nerth i nerth.

Hyfforddiant
NVQ
Mae staff y cynlluniau dal wrthi'n brysur yn gwneud eu NVQs - da-liwch ati. Bydd Eirwen Khan ag Eurwen Williams yn cychwyn cwrs NVQ 3 mewn Gofal gyda Branas ym mis Awst. Pob lwc i chi.
Coleg/Arholiadau
Dymunwn bob llwyddiant i Justine Williams a Yasmin Khan sydd wedi bod yn sefyll arholiadau yn ddiweddar ag yn aros i gael eu canlyniadau. Un arall sy'n brysur iawn ar hyn o bryd yw Mair, yn cwblhau aseiniadau coleg ag ysgrifennu traethawd hir ar gyfer cwrs Msc mewn Ymarfer Rheolaeth.
Cwrs Sylfaen
Bu'r cwrs sylfaen yn lwyddiant mawr eto eleni ac mae'r adborth sydd wedi dod yn ôl gan staff yn dangos bod pawb wedi dysgu llawer o'r cwrs. Dwi'n siŵr ein bod i gyd yn ddiolchgar i Lyn am redeg y cwrs ag am adael haul tanbaid Sbaen ar ôl am fis
Cyrsiau
Mae'r Cwmni yn bwriadu rhoi rhaglen hyfforddi at ei gilydd o fis Medi ymlaen pan fydd Christine Uden yn rhoi sesiynau hyfforddi i staff. Bydd manylion pellach yn cael eu dosbarthu yn y man.

Nodyn Atgoffa
All pawb plîs ddefnyddio'r ffurflenni Cais am Hyfforddiant newydd wrth wneud cais am gwrs/gynhadledd. Ni allwn dderbyn yr hen rai o hyn ymlaen.

Mae'n bwysig hefyd bod Lowri yn derbyn ffurflenni adborth hyfforddiant cyn gynted â phosib ar ôl yr hyfforddiant er mwyn cael eich barn ar y cwrs.

THEATR PROFIADAU (PARHAD)

Rhyfedd o beth oedd gweld fod profiadau ein pobl ifanc ni yn addysgu pobl ifanc yn yr ysgolion. Profiad gwerthfawr o'u hochr nhw a ni fel staff. Coronwyd y cyfan gyda thrip i Gaerdydd a pherfformiad yn y Cynulliad Cenedlaethol a chyfle i herio ambell i wleidydd.

Mae'r theatr fforwm yn ddull sy'n dysgu gwerthoedd newydd i bobl ifanc, yn rhoi egwyddorion gwahanol iddynt ac yn fwy na dim yn dysgu pobl i fynegi eu hunain boed hynny trwy emosiwn neu ar lafar. Mae gwerth amhrisiadwy i'r nodweddion hyn i unrhyw berson ifanc ac yn arbennig felly i'n defnyddwyr gwasanaeth. O'r diwedd maent yn sylweddoli fod ganddynt hawl i leisio'u barn ac ni ellir mesur gwerth hyn.

Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ran bawb i Iwan Brioc ac i Ysgol Gerdd William Mathias am eu cefnogaeth

Adroddiad Osian Elis

Profiad Myfyrwraig gan Katy Jones

Fel rhan o fy Niploma mewn Gwaith Cymdeithasol roedd yn ofynnol i mi gwblhau 80 diwrnod ar leoliad. Rwyf wedi bod ar leoliad gyda GISDA rwan ers mis Ebrill ac fe ddaw fy nghyfnod i ben ddechrau Awst. Mae fy ngwaith yn bennaf wedi bod gyda Thîm Gogledd Gwynedd ond rwyf hefyd wedi cael y cyfle i ymweld a chasglu gwybodaeth berthnasol am gynlluniau eraill a reoli'r gan GISDA.

O'r cychwyn cefais groeso cynnes gan y bobl ifanc yn yr hostel a'r aelodau staff i gyd, gallaf ddweud yn onest fy mod wir yn teimlo fel rhan o'r tîm yn GISDA. Hoffwn ddiolch i'r cwmni am y profiad gwerthfawr rwyf wedi fagu dros y pedwar mis diwethaf wrth weithio gydag asiantaethau allanol a dod i ddeall pa wasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc digartref.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch i'r bobl ifanc yn GISDA. Nid yn unig maent wedi fy nhrin yn gyfartal â staff eraill sy'n eu cefnogi, rwyf hefyd yn teimlo, trwy eu gonestrwydd a'u parodrwydd i rannu profiadau, fy wedi dod i ddeall y sefyllfaoedd sy'n eu hwynebu. Ar brydiau rwyf wedi rhannu eu rhwystredigaeth a'r teimlad o gamdriniaeth wrth gysylltu gydag asiantaethau. Rwy'n gobeithio y medraf gofio hyn yn fy ngyrfa yn y dyfodol a cheisio deall sefyllfa yr unigolion.

Hoffwn gydnabod gweledigaeth GISDA o rymuso pobl ifanc i ddatblygu sgiliau i fyw yn annibynnol ac i amlygu'r anawsterau sy'n eu hwynebu i gyflawni hyn. Credaf fod cyfuniad o ddiffyg adnoddau a'r disgwyliad y gall pobl ifanc gymryd cyfrifoldebau oedolion yn her i'r cwmni wrth gyflwyno eu cefnogaeth. Diolch yn fawr am y profiad arbennig.

Gweithio gyda'n gilydd

Enw?
Kerry Yale
Swydd?
Arweinydd Tîm
Beth yw Prince's Trust?
Elusen wedi ei sefydlu gan Dywysog Cymru 30 mlynedd yn ôl i helpu pobl ifanc yn ôl i addysg, gwaith a hyfforddiant.
Ers faint ydych chi wedi bod yn gweithio hefo Prince's Trust?
3 blynedd
Sut mae Prince's Trust yn cydweithio gyda GISDA?
Dwi'n recriwtio pobl o GISDA ar gyfer y Rhaglen Tîm. Rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar y gerddi yn Hafan fel rhan o'r Prosiect Cymunedol.
Pa fath o weithgareddau sy'n cymryd lle ?
Mae'r Rhaglen Tîm dros gyfnod o 12 wythnos ac yn cynnwys cyflwyniad, wythnos breswyl yn Sir Benfro, Prosiect Cymunedol, profiad gwaith, Camau Nesaf, Sialens Elusennol, a Chyflwyniad Terfynol.
Beth yw eich profiad mwyaf cofiadwy?
Miloedd. Dwi wedi rhedeg 8 tîm ac wedi gweithio gyda dros 30 o dimoedd dros y 3 blynedd ddiwethaf felly mae gennyf lawer o atgofion hapus o helpu pobl ifanc.
Gyda pha asiantaethau eraill mae Prince's Trust yn gweithio?
Rydw i'n cael fy nghyflogi gan Goleg Yale i weithio gyda Prince's Trust ac rydym yn gweithio gyda Gyrfa Cymru, Canolfan Waith, YOT, gwasanaeth prawf, asiantaethau cyffuriau ac alcohol, NACRO Cymru, SOVA, grwpiau cymunedol a chyflogwyr ar draws yr ardal.

Diweddaru'r Wefan

Mae sawl blwyddyn wedi pasio bellach ers creu gwefan bresennol GISDA ac ni ellir gwadu bod ei dyddiau gorau wedi hen fynd heibio. Er bod llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar y wefan mae'r edrychiad a'r dyluniad wedi dyddio. Penderfynwyd comisiynu Delwedd, sef cwmni dylunio yng Nghaernarfon i ymgymryd â'r gwaith o weddnewid y wefan.

Mae'n bwysig fod y cwmni yn flaenllaw gyda datblygiadau ym myd technoleg gwybodaeth er mwyn cynnig y gwasanaeth gorau posib i bobl ifanc ac i farchnata'r gwasanaeth hwnnw yn effeithiol.

Yn dilyn trafodaethau gyda Meic Roberts (Delwedd) cafwyd nifer o syniadau cyffrous yn cynnwys cael dau safle ar yr un wefan. Mi fyddai un yn fwy addas ar gyfer pobl ifanc fyddai'n chwilio am gymorth a gwybodaeth ar llall gyfer sefydliadau a busnesau eraill.

Mae ein pwyslais ar gael gwefan hawdd i'w defnyddio ond sydd hefyd yn cyflwyno technoleg arloesol yn y maes.

Mi fyddwn yn lansio'r wefan newydd yn ein cyfarfod blynyddol ym mis Medi felly gwnewch yn siŵr y byddwch yno.

Yn y Gegin

Pizza Omlet
Digon i 2
Cost - £2.00

Omlet
2 ŵy canolig
Halen a Phupur
Dropyn o lefrith
Olew i ffrio

Llenwad
1 Nionyn bach
2 Sleisen a facwn
2 llwy de o purre tomato
Caws wedi gratio

Paratoi'r llenwad
Torri y nionyn a'r bacwn yn fân a'u ffrio mewn ychydig o olew am 5 munud. Ychwanegu purre tomato. Coginio am 2 funud. Cadw ar un ochr.

Gwneud yr omlet
Curo'r wyau gyda'i gilydd ac ychwanegu halen a phupur. Cymysgu nes bod y wyau yn fluffy ac ychwanegu'r llefrith. Cnesu'r olew a choginio ar wres canolig. Pan mae'r wyau'n galed ar y gwaelod ond dal ychydig yn feddal ar y top tynnwch oddi ar y gwres. Gorchuddiwch gyda'r llenwad a'r caws a'i goginio o dan y gril poeth tan mae'r caws wedi toddi. Bwytwch tra'n boeth

GRYM WRTH ACTIO

Prosiect Theatr Fforwm
Diwrnod 4 – Caerdydd
I ffwrdd a ni i'r Cynulliad. Roeddwn i'n edrych ymlaen at hyn achos mi fyddai'n gyfle i siarad â AC ac i leisio'n barn. Aeth y perfformiad yn wych ac roedd gan rhan fwyaf o AC ddiddordeb yn beth oedd ganddom i'w ddeud. Gofynodd rhai beth allent neud i'n helpu ni i newid ein problemau. Teimlais bod hyn braidd yn anheg achos doedda nhw ddim yn derbyn beth oedda ni'n awgrymu ac ddim gyda gwir ddiddordeb. Ar ôl gadael roeddwn yn teimlo'n drist gan nad oeddent wedi gwrando arnom.

Noson honno aetho ni i Grassroots, canolfan drop-in i bobl digartref.

Yn Grassroots

Cawsom groeso yn syth wrth gerdded i mewn. Roedd y lle yn fwrlwm o liw ac yn teimlo'n le braf a saff. Ar ôl ein perfformiad cawsom gyfle i siarad gyda'r bobl oedd yno. Cawsom i gyd ein cyffwrdd gan rhai o'r straeon glywson ni a'r ffyrdd gwahanol oedd gan bobl i ddelio hefo sefyllfaoedd. Naethon ni adael y ganolfan hefo cyfeiridadau ebost yn benderfynol o gyfarfod y bobl yma eto ac i wenud rhywbeth ynglyn a lledaenu ein negas. Dyma rhan gorau o'r trip i fi, roedd yn briliant cyfarfod y bobl leol ac i wybod ein bod i gyd yn debyg mewn un ffordd neu'r llall.

Ar ôl deud hwyl fawr ac addo cyfarfod yn fuan aethon ni am ein 'swper olaf' gyda Iwan ac Osh bach. Roeddan ni i gyd yn gwbod y bysa hyn yn drist achos bo ni wedi dod yn grŵp mor agos. Yn ystod y pryd Morroccan nes i ffendio asgwrn yn fy mushroom! Ar ôl y pryd gofynodd Iola wrthai ddeud gair neu ddau wrth Iwan. Nes i ddiolch iddo a deud ein bod wedi dysgu lot. Yna roedd yn amser ffarwelio.

Iola, Ash a Ffion

Diwrnos 5
Fel yr oeddwn yn gadael sylweddolais bod y trip yma wedi fy newid i. Roedd wedi codi awydd yno fi i wneud gwahaniaeth ac i gael fy nghlywed. Sylweddolais nad oes ots lle yda chi na pwy yda chi, os yda chi'n ddigartref mi fyddwch yn wynebu'r un gwrthwynebiad gan gymdeithas. Mae'n amser i sefyll ar ein traed a gwneud gwahaniaeth. "Poor people gunna rise up and get their share". Gan Ash (18 oed)

Cystadleuaeth Chwilair

N	H	E	P	F	O	O	N	A	I	K	T
E	E	I	Q	A	F	O	B	E	D	G	P
Q	U	E	I	G	R	E	F	N	M	L	A
T	J	B	L	T	Y	I	P	O	A	S	G
S	L	N	A	O	E	I	S	I	V	V	F
Z	P	I	N	K	C	C	R	O	Q	C	E
L	H	C	N	V	A	O	A	Z	I	I	N
I	E	Q	A	D	T	N	E	W	G	M	A
M	W	P	H	C	S	P	R	T	T	O	W
O	Q	T	I	H	X	E	I	L	Y	K	N
N	Y	V	R	O	L	R	Y	U	A	N	O

Chwiliwch am y geiriau cudd yma:
RIHANNA
BEYONCE
KYLIE
GWEN
FERGIE
COLEEN
PARIS
PINK
LINDSEY
VICTORIA
£5.00 o wobr i'r enillydd cyntaf o'r het.

CHWILIO AM ENW

Rydym eisiau enw i'r dudalen hon sydd wedi ei hanelu yn benodol at ddefnyddwyr gwasanaeth. Os oes genych syniadau anfonwch nhw i Sian trwy eich gweithiwr allweddol. Mae gwobr o £5.00 i'r enillydd.

£5.00 AM BOB CYFRNIAD

Os oes genych unrhyw beth i'w gyfrannu at y dudalen hon gadewch i'ch gweithiwr allweddol wybod a'u hanfon nhw i Sian yn y brif swyddfa yn Tŷ Rhydalun. Diolch